

Effaith yr achosion o COVID-19 ar chwaraeon

Mehefin 2020

1. Cefndir

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn archwilio effaith yr achosion o COVID-19 ar feysydd sydd o fewn ei gylch gwaith. At ddibenion yr ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor hefyd yn rhoi sylw i chwaraeon ar lawr gwlad ac ar lefelau elitaidd.

Darparodd Dafydd Elis-Thomas AS, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, a Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru, dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 12 Mai.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar 11 Mehefin:

- Brian Davies, Chwaraeon Cymru;
- Dr Kelly Mackintosh, Prifysgol Abertawe;
- Huw Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Jonathan Ford, Cymdeithas Bêl-droed Cymru;
- Gareth Davies, Undeb Rygbi Cymru; a
- Marcus Kingwell, EMD UK: Y Corff Llywodraethol Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff mewn Grwpiau

Gellir gweld trawsgripiad o'r cyfarfod ar wefan y Pwyllgor.

Bu'r aelodau hefyd yn trafod dystiolaeth ysgrifenedig. Darperir rhestr yn Atodiad A.



2. Effaith uniongyrchol ar chwaraeon a chymorth i'r sector

1. Disgrifiodd Undeb Rygbi Cymru effaith COVID-19 ar chwaraeon fel un 'drychinebus'¹. Dywedodd Chwaraeon Cymru fod yr effaith wedi bod yn 'uniongyrchol ac yn sylweddol' ar y chwaraeon a oedd yng nghanol eu tymor, neu ar fin dechrau.² Dywedodd Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru, wrth y Pwyllgor fod clybiau bach a mawr i gyd wedi cau, a bod pawb yn chwilio am gymorth i'w helpu drwy'r cyfnod hwn.³
2. Dywedodd Chwaraeon Cymru wrth y Pwyllgor fod yr ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wedi 'cynyddu'n sylweddol'⁴ ers yr achosion o COVID-19 a bod hynny wedi bod yn enghraifft dda o'r 'cydweithredu cynyddol y bu ei angen yn ystod y cyfnod hwn'⁵. Yn yr un modd, dywedodd Undeb Rygbi Cymru mai un o elfennau cadarnhaol y pandemig fu 'cyfathrebu llawer gwell'⁶ a dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod yr ymgysylltu wedi bod yn 'enghreifftiol'⁷.
3. Clywodd y Pwyllgor fod gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru rai pryderon ar ddechrau'r pandemig bod y rhan fwyaf o benderfyniadau'n cael eu gwneud yng nghyfarfodydd Cabinet Llywodraeth Cymru, ac nad yw 'chwaraeon o reidrwydd yn cael ei gynrychioli'n uniongyrchol yn y Cabinet hwnnw dan ofal Gweinidog Chwaraeon'.⁸

*'So, there were one or two concerns that not necessarily somebody has got, let's say, the back of football or sport at those Cabinet meetings. But we've been reassured that those briefings do happen beforehand.'*⁹
4. Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, mae Chwaraeon Cymru wedi addasu cyfanswm o £8.5 miliwn at ddibenion gwahanol i gynorthwyo sefydliadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol sydd wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan

¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 158

² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 43

³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Mai, Paragraff 110

⁴ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 13

⁵ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 13

⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 138

⁷ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 15

⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 136

⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 136

y pandemig a hefyd i'w helpu 'i ffynnu a chynorthwyo pobl yng Nghymru i fwynhau bod yn egniol yn y dyfodol'.¹⁰

5. Mae Chwaraeon Cymru yn cynnal Cronfa Cymorth mewn Argyfwng sy'n werth £550,000 ar gyfer chwaraeon cymunedol nid-er-elw. Erbyn 22 Mehefin 2020, roedd cymorth wedi ei ddarparu i 295 clwb yng Nghymru, gan gyrraedd cyfanswm o £543,944. Esboniodd Chwaraeon Cymru ei fod wedi ailbennu cyllid o'r cyllidebau presennol i greu'r gronfa:

'The truth is that will have an impact, if we spend all that on recovery out of this situation, for when we have recovered out of it, because it will no longer be available to us, because we'll have spent it.'¹¹

6. Mae Undeb Rygbi Cymru wedi darparu £1,000 yn ychwanegol i bob un o'i aelod-glybiau.

7. Clywodd y Pwyllgor nad yw pob rhan o'r sector wedi cael mynediad at gymorth ariannol. Dywedodd Chwaraeon Cymru wrth y Pwyllgor y gallai rhai pobl hunangyflogedig - er enghraifft, hyfforddwyr - fod wedi disgyn rhwng dwy stôl.¹² Esboniodd EMD UK fod llawer o hyfforddwyr hunangyflogedig ymarfer corff mewn grwpiau wedi ei chael yn anodd elwa ar Gynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig am sawl rheswm:

'Group exercise might be a part-time employment for them rather than full time. They might have come into it in the last 12 months, in which case they don't have the financial records to prove the case of their previous earnings and profits, or they might be running it through a microbusiness, in other words, a limited company, and are therefore not allowed. So there are a great many self-employed people here of various types who have not been able to claim anything...because they're not entitled to any financial support, and you have to wonder whether they will still be here again when they're allowed to start teaching classes in their community settings.'¹³

8. Rhoddodd y Mackintosh Lawn Tennis Club sylwadau ar y broblem hon hefyd, gan ysgrifennu:

'The UK Government and LTA (*Lawn Tennis Association*) have provided financial support to self-employed coaches through Self-Employment Grant scheme, and Coaches Grant scheme - however, this amount is significantly less than coaches would usually earn. The UK Government Self-Employment Grant scheme is calculated based on average profits from the last 3 years -

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig Chwaraeon Cymru

¹¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 55

¹² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 56

¹³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 164

whilst tennis coaches work all-year round, the vast majority of income is generated from March-August, therefore the Grant Scheme provides an unfair calculation for seasonal workers.¹⁴

9. Clywodd y Pwyllgor fod ymddiriedolaethau hamdden hefyd yn wynebu pryderon ariannol sylweddol. Mae ymddiriedolaethau Cymru yn parhau i fynd i oddeutu £222,000 o gostau misol ar gyfartaledd (ac eithrio'r costau a adenillir drwy'r Cynllun Cadw Swyddi ac unrhyw ostyngiad gwariant a drafodwyd), gan gollu incwm o £420,000 y mis ar gyfartaledd.¹⁵ Yn ôl Community Leisure UK (Cymru):

'There are significant concerns around the financial viability after the Coronavirus Job Retention Scheme ends in October with 70% of Welsh trusts reaching an "insecure" position in the next 6-9 months. Alarmingly, within nine to twelve months from now, 90% of Welsh trusts will have become "non viable" or be in an "insecure" position.'¹⁶

10. Dywedodd Chwaraeon Cymru y gall ei gronfeydd cymorth 'helpu yn unig; nid ydyn nhw'n mynd i ddatrys y mater'.¹⁷ Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn poeni am yr effaith economaidd ar ymddiriedolaethau hamdden, gan nodi:

'...the real fear is...even after the lockdown eases, people won't immediately return in the numbers they once did to these kinds of indoor sporting activities. From a local government perspective, therefore, we are certainly looking very closely at a position where leisure centres have been placed into trusts or other arrangements, with an anticipation that there will be some calls for these services to return back to the authority, with the incumbent costs that come with that. Likewise, if the authority is still delivering services in-house, those authorities will be taking direct financial hits. So, it is a challenge that, whatever your position is in the 22 authorities—it's something that will impact us all, I think.'¹⁸

11. Dywedodd y Gymdeithas hefyd fod angen ystyried y ffaith bod rhai canolfannau hamdden yn cael eu defnyddio fel canolfannau triniaeth ar gyfer COVID-19, ac y gall y trefniadau hynny barhau ar ôl caniatáu i ganolfannau hamdden ailagor, fel rhan o unrhyw gynllun adfer.¹⁹ Ysgrifennodd Community Leisure UK (Cymru):

'Some of these repurposed leisure centres have already been told they will not return to their original purpose before the end of this calendar year. This

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig y Mackintosh Lawn Tennis Club

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig Community Leisure UK (Cymru)

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Community Leisure UK (Cymru)

¹⁷ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 57

¹⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 49

¹⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 31

significantly limits organisation's possibilities to operate and generate income, as in some cases the repurposed sites account for 40% of the usual income.'²⁰

12. Clywodd y Pwyllgor hefyd y bydd effaith economaidd sylweddol ar lefel clybiau, gan gynnwys pêl-droed a rygbi. Esboniodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru fod pêl-droed domestig yng Nghymru yn ddibynnol iawn ar incwm a geir ar ddiwrnod gêm a thrwy adeiladau'r clwb, a hebdo 'bydd rhai effeithiau economaidd pendant, a bydd yn rhaid iddynt ailasesu eu modelau busnes i ddeall sut mae'n gweithio.'²¹ Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y ffaith bod cryn dipyn o incwm clybiau chwaraeon yn dod o weithgareddau cymdeithasol, yn hytrach na gweithgareddau chwaraeon, yn golygu na fydd llacio'r cau i lawr 'o reidrwydd yn datrys yr heriau ariannol a allai gael eu llywodraethu gan set wahanol o ganllawiau cyfyngiadau symud.'²²

13. O ran pêl-droed lefel uchel, dywedodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru y dylai arian o'r farchnad ddarlledu ei alluogi i oroesi.²³ Mae rygbi proffesiynol ar y llaw arall yn 'dioddef ergydion, a bydd yn dioddef ergydion mawr'²⁴ yn ôl Undeb Rygbi Cymru. Cafodd gêm Cymru yn erbyn yr Alban ym mhencampwriaeth y Chwe Gwlad yn Stadiwm Principality Caerdydd ei gohirio gan Undeb Rygbi Cymru y diwrnod cyn yr oedd i fod i ddigwydd ar 14 Mawrth, gan arwain at 'ergyd £10 miliwn' i'r corff llywodraethu.²⁵

14. Clywodd y Pwyllgor mai chwaraeon ar lawr gwlad sy'n debygol o wynebu'r ergydion llymaf. Dywedodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru fod 'anawsterau ariannol enfawr o'n blaenau'²⁶ ac ei bod yn debygol y byddai 'llai o glybiau yn y pen draw'²⁷. Esboniodd Undeb Rygbi Cymru:

'In the short term, if you're looking over the next six months, then a very, very high percentage of our community clubs have reserves to survive that period. The concern then, of course, becomes if we go further into 2021.'²⁸

15. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod effeithiau'r argyfwng presennol yn effeithio'n waeth byth ar bêl-droed menywod. Rhybuddiodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru y gallai gêm y menywod gael ei 'chwalu'n llwyr yn sgil y pandemig hwn'.²⁹

²⁰ Community Leisure UK (Cymru)

²¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 154

²² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 59

²³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 153

²⁴ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 161

²⁵ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 158

²⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 155

²⁷ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 176

²⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 160

Ein barn ni

Mae'r effaith ar chwaraeon wedi bod yn syth ac yn sylweddol. I bob pwrpas, cymerodd y sector reolaeth dros ei faterion ei hun drwy atal rhai chwaraeon yng Nghymru, gan gynnwys rygbi a phêl-droed, cyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig wahardd digwyddiadau chwaraeon mawr.

Mae chwaraeon ar bob lefel yn teimlo effaith COVID-19.

Cymorth i'r sector

Clywodd y Pwyllgor fod y sector yn wynebu effaith ariannol sylweddol a allai fygwth gallu chwaraeon ar bob lefel i ddychwelyd i sefyllfa fel yr oedd pethau cyn y pandemig.

Rydym yn croesawu cymorth ariannol prydlon Chwaraeon Cymru ar gyfer sefydliadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol sy'n cael eu heffeithio'n negyddol gan y pandemig drwy ei Gronfa Cadernid Chwaraeon a'i Gronfa Cymorth mewn Argyfwng. Hoffai'r Pwyllgor gael diweddariad ym mis Medi gyda manylion ynghylch sut dosbarthwyd dyraniad y gronfa cadernid o £8 miliwn a sut gallai gweithgareddau Chwaraeon Cymru dros y blynyddoedd i ddod gael eu heffeithio o ystyried bod y cynlluniau cymorth wedi dod o'r cyllidebau presennol.

Clywsom hefyd nad yw pob rhan o'r sector wedi gallu cyrchu'r cynlluniau cymorth sydd ar gael. Er enghraifft, clywsom fod Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn anaddas ar gyfer hyfforddwyr hunangyflogedig oherwydd ei bod yn bosibl nad oes ganddynt werth tair blynedd o gyfrifon neu eu bod o bosibl yn cynnal dosbarthiadau fel microfusnes. Dylai Llywodraeth Cymru ymyrryd i sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y sector yn gymwys i gael cymorth ariannol.

Mae ymddiriedolaethau hamdden hefyd yn wynebu heriau ariannol sylweddol. Mae'r ymddiriedolaethau hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru, a rhaid i ni sicrhau eu bod yn goroesi'r argyfwng hwn. Yn yr un modd, clywsom fod chwaraeon ar lawr gwlad yn teimlo effaith y pandemig. Yn aml, clybiau chwaraeon yw'r unig ganolbwynt sydd wedi goroesi yn y gymuned³⁰ a byddai'n drist iawn gweld llai o glybiau ar ddiwedd y pandemig hwn. Mae

²⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 156

³⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 159

ymddiriedolaethau hamdden a chlybiau chwaraeon cymunedol yn dibynnu ar incwm a geir drwy fasnachu, sydd wedi dod i stop. Mae'n bosibl na fydd llacio cyfyngiadau ar gyfer gweithgareddau chwaraeon ac ymarfer corff yn datrys yr heriau ariannol a all gael eu llywodraethu gan set wahanol o ganllawiau sy'n ymwneud â gweithgarwch cymdeithasol. Gan hynny, dylai Llywodraeth Cymru fod yn barod i ymestyn y cymorth cyhoeddus angenrheidiol i sicrhau goroesiad chwaraeon cymunedol.

Rydym yn pryderu bod y pandemig yn cael effaith negyddol ar bêl-droed menywod. Mae pêl-droed menywod yng Nghymru wedi tyfu 50% yn y pedair blynedd diwethaf. Rydym yn mawr obeithio na chaiff y gwaith cynhwysiant gwerthfawr hwn ei ddadwneud, ac rydym yn argymhell y dylid canolbwyntio cymorth ariannol Chwaraeon Cymru ar sefydliadau sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod y Cynllun Incwm Hunangyflogedig yn cael ei ddiwygio fel nad oes unrhyw un sy'n hunangyflogedig yn y sector chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn cwmpo rhwng dwy stôl.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ystyried y cymorth sydd ar gael i ymddiriedolaethau hamdden a bod yn barod i ymestyn y cymorth cyhoeddus angenrheidiol i sicrhau goroesiad ymddiriedolaethau hamdden a chlybiau cymunedol.

3. Gweithgareddau corfforol

16. Mae arolwg a gynhaliwyd ar gyfer Chwaraeon Cymru wedi canfod, er nad yw lefelau cyffredinol gweithgarwch corfforol wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud, dywed 34% o oedolion Cymru eu bod yn gwneud mwy ar yr adeg hon nag yr oeddent yn ei wneud cyn y cyfyngiadau, tra bod 33% yn dweud eu bod yn gwneud llai. Er hynny, mae amrywiadau amlwg o fewn rhai grwpiau demograffig a rhyngddynt.³¹

17. Ymhlith oedolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch, dywed 39% eu bod yn gwneud mwy o weithgareddau corfforol a dywed 32% eu bod yn gwneud llai, sy'n golygu y bu cynnydd o +7 pwynt canran mewn gweithgarwch. Fodd bynnag, yn achos oedolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is,

³¹ <https://www.chwaraeon.cymru/canolfan-cyfyngau/newyddion-erthyglau-ac-ymgvrchoedd/2020-05-27-y-bwlch-anghydraddoldeb-wedi-cynyddu-yn-ystod-y-cyfyngiadau-symud/>

mae 29% yn gwneud mwy ac mae 33% yn gwneud llai, sy'n golygu y bu gostyngiad o -4 pwynt canran ymhlith y grŵp hwn.³²

18. Roedd tystion yn poeni bod y bwlch mewn anweithgarwch corfforol rhwng dosbarthiadau cymdeithasol yn ehangu. Dywedodd EMD UK:

'So, while the, if you like, middle classes—the ABC 1s—have been doing more physical activity, developing and engraining that as a habit, those from the poorest backgrounds are doing less, and I'm worried that they will then be making that into a habit as well. So, we have quite a divided Picture.'³³

19. Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu bod y rhaniad hefyd i'w weld ymhlith plant. Er bod 9% o oedolion yn gyffredinol yn nodi nad yw eu plant yn gwneud unrhyw weithgaredd corfforol nac ymarfer corff ar ddiwrnod arferol ar hyn o bryd, 14% yw'r ffigur ymysg pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Ar y cyfan, dywedodd 26% o rieni fod eu plant yn gwneud mwy o weithgareddau nag arfer yn ystod y cyfyngiadau symud, tra bod 35% yn nodi bod eu plant yn gwneud llai. Fodd bynnag, dim ond 23% o rieni o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sy'n dweud bod eu plant yn fwy egniol na'r arfer, o'i gymharu â 36% sy'n dweud eu bod nhw'n gwneud llai.³⁴

20. Wrth sôn am y gostyngiad mewn gweithgarwch corfforol ymhlith plant, dywedodd Dr Kelly Mackintosh:

'...the inequalities have just widened—they haven't got the garden space, for example. It's perhaps, in some cases, where there's more children per household, a lot harder in terms of managing home schooling, but also integrating not just the activity associated, but the specific skills moving forward in that.'³⁵

21. Roedd Nofio Cymru hefyd yn poeni bod plant (ac oedolion) ar eu colled ar hyn o bryd o ran yr elfen sgiliau bywyd sydd ynghlwm wrth ddysgu nofio.³⁶

22. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, dywedodd Chwaraeon Cymru ei bod yn hanfodol bod effaith gostyngiad mewn gweithgarwch corfforol ymysg plant yn cael ei drin fel rhan o'r cwricwlwm newydd a'r dychweliad i amgylchedd

³² <https://www.chwaraeon.cymru/canolfan-cyfyngau/newyddion-erthyglau-ac-yngyrchoedd/2020-05-27-y-bwlch-anhydraddoldeb-wedi-cynyddu-yn-ystod-y-cyfyngiadau-symud/>

³³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 190

³⁴ <https://www.chwaraeon.cymru/canolfan-cyfyngau/newyddion-erthyglau-ac-yngyrchoedd/2020-05-27-y-bwlch-anhydraddoldeb-wedi-cynyddu-yn-ystod-y-cyfyngiadau-symud/>

³⁵ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 33

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Nofio Cymru

ysgol.³⁷ Galwodd Codi Pwysau Cymru am 120 munud yr wythnos o addysg gorfforol orfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru.³⁸

23. Clywodd y Pwyllgor hefyd fod cyfranogiad menywod mewn gweithgarwch corfforol wedi cynyddu rhywfaint ers y cyfyngiadau symud.³⁹ Disgrifiodd Dr Kelly Mackintosh fod hon yn elfen 'gadarnhaol iawn y dylem lynu wrthi a hefyd ei defnyddio fel rhywbeth cadarnhaol i'w drosglwyddo y tu hwnt i'r cyfnod o gyfyngiadau symud'.⁴⁰ Yn ôl Dr Mackintosh gellid priodoli'r cynnydd i'r ffordd mae ymarfer corff yn cael ei wneud yn ystod y cyfyngiadau symud oherwydd bod llai o ryngweithio cymdeithasol a theimladau o ansicrwydd.⁴¹

24. Galwodd EMD UK, Dr Kelly Mackintosh a Chwaraeon Cymru⁴² am ragor o ymchwil i'r hyn sy'n gyfrifol am y newidiadau mewn cyfranogiad. Rhybuddiodd EMD UK rhag ceisio dod o hyd i atebion unigol, gan ddweud 'nid yw pethau mor ddu a gwyn â hynny, ac mae'n destun pryder y gallai'r anghydraddoldebau cymdeithasol gynyddu drwy'r sefyllfa benodol hon'.⁴³ Dywedodd Dr Mackintosh:

'We need to use time now, in terms of what it is that is widening the gap. We can probably make intuitive guesses, but what is it that actually meant that females increased their participation, for example? And if we can allude to that, then that's something that we take forward and try and implement into future strategies.'⁴⁴

25. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gweithgarwch corfforol wrth leihau'r risg a berir gan COVID-19. Mae'n dweud y gall gweithgarwch rheolaidd:

'reduce high blood pressure, help manage weight and reduce the risk of heart disease, stroke, type 2 diabetes, and various cancers - all conditions that can increase susceptibility to COVID-19.'⁴⁵

26. Dywedodd Dr Kelly Mackintosh wrth y Pwyllgor:

'In terms of as much as we know at the moment, there are links, when you're responding to a respiratory virus, that, hypothetically, if you were starting off

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Chwaraeon Cymru

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig Codi Pwysau Cymru

³⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 27

⁴⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 34

⁴¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 34

⁴² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 28

⁴³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 190

⁴⁴ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 38

⁴⁵ <https://www.who.int/news-room/campaign/connecting-the-world-to-combat-coronavirus/healthyathome/healthyathome---physical-activity>

with a greater baseline of fitness level, greater capacity to respond to the body's demands, you are going to be more likely to respond better to something that then affects that particular—your lung function, for example.’⁴⁶

27. Clywodd y Pwyllgor mai un o'r pethau cadarnhaol a oedd yn amlwg ar unwaith wrth i'r Deyrnas Unedig ddechrau ar y cyfnod o gyfyngiadau symud oedd pwysigrwydd gweithgarwch corfforol ym marn y cyhoedd a Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru. Ysgrifennodd Community Leisure UK (Cymru) mai'r 'pandemig yw'r tro cyntaf mae llywodraethau cenedlaethol ledled y byd wedi cydnabod ac amlygu buddion gweithgarwch corfforol yn gyhoeddus'.⁴⁷ Esboniodd Dr Kelly Mackintosh fod hynny wedi rhoi hwb o ddifrif i'r neges allweddol bod gweithgarwch corfforol yn 'ddigon pwysig i chi gael mynd allan o'r tŷ' i'w wneud.⁴⁸

28. Wrth edrych tua'r dyfodol, dywedodd Dr Mackintosh wrth y Pwyllgor y dylid canolbwyntio ar sut i gymryd y pethau cadarnhaol hynny a'u troi'n ymddygiadau newydd.⁴⁹ Yn ôl Chwaraeon Cymru:

'...there's an opportunity here to build on that directive effectively given by Government, and we shouldn't just expect it to continue in those areas where it has increased. Clearly...there are some groups where it hasn't increased and has probably gone backwards, and those gaps are in danger of widening. So, the sooner we can get some financial security for the future, so that we can help those who've rediscovered activity continue it, and help those who've yet to find it to find it, then the better for our nation.'⁵⁰

29. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod 'newid meddylfryd cymdeithasol yn digwydd ar hyn o bryd, ac yn sicr mae cyfleoedd i gynyddu cyfranogiad os oes digon o adnoddau i'w gyflawni'.⁵¹ Esboniodd y Gymdeithas fod y rhan fwyaf o'r cymorth a ddarperir gan lywodraeth leol ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn 'wariant dewisol' o ran cyfrifoldebau o dan amrywiol Ddeddfau, gan ddweud:

'you can imagine a scenario in a future austerity programme, where council budgets are squeezed such that we are unable to continue the support that's currently there for all sporting activities.'⁵²

30. Dywedodd Codi Pwysau Cymru fod 'cyfleusterau campfeydd awdurdodau lleol wedi dod yn dargedau hawdd dros y blynyddoedd o lymder, oherwydd nad

⁴⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 108

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Community Leisure UK (Cymru)

⁴⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 109

⁴⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 109

⁵⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 115

⁵¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 119

⁵² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 119

ydyn nhw'n wasanaethau statudol' a galwodd am weld hyn yn newid.⁵³ Galwodd Community Leisure UK (Cymru) hefyd am gymorth i weithredwyr cyfleusterau a gwasanaethau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau corfforol cyhoeddus.⁵⁴

31. Tynnodd tystion sylw at fanteision economaidd a chyllidol cynyddu lefelau gweithgarwch. Dywedodd EMD UK fod problemau sy'n gysylltiedig ag anweithgarwch corfforol ledled y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn costio biliynau o bunnoedd y flwyddyn i'r economi. Galwodd am i'r cynllun adfer chwaraeon ganolbwyntio ar y buddion iechyd 'i wneud y wlad yn fwy cydnerth yn wyneb heintiau ac argyfyngau iechyd cyhoeddus eraill yn y dyfodol'⁵⁵. Dywedodd Dr Kelly Mackintosh 'os gallwn leihau unrhyw effaith ar y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yna mae hynny'n gadarnhaol'.⁵⁶

32. Galwodd Community Leisure UK (Cymru) ar Lywodraeth Cymru i 'ddatblygu system llesiant cenedlaethol i wella iechyd a llesiant y genedl a lleihau'r galw am wasanaethau' ac i 'ddefnyddio penderfyniadau iechyd ehangach i alluogi ymagwedd system gyfan at wella iechyd a llesiant'.⁵⁷

33. Bu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn trafod y 'cysylltiad cynhenid sy'n bodoli rhwng chwaraeon a gweithgareddau corfforol a chanlyniadau iechyd, a pha mor bwysig yw cynnal yr agenda honno wrth i ni ddod allan o'r pandemig hwn'.⁵⁸ Yn ôl y Gymdeithas, mae hyn yn tanlinellu ei dadl y dylai swyddogaethau iechyd cyhoeddus fod ym meddiant awdurdodau lleol fel yr arferent fod yn hanesyddol, ac fel sy'n digwydd yn Lloegr. Dywedodd Huw Thomas wrth y Pwyllgor:

*'I've spoken to many petitioners in England who speak very positively about how there is a much greater societal understanding that is therefore reflected in policies collaboration in general and specifically with this crisis between councils and health boards and spend priorities now that public health sits with local government.'*⁵⁹

34. Galwodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru hefyd am ragor o gydweithredu rhwng y sectorau iechyd a chwaraeon, gan nodi ei bod wedi 'galw ar adrannau'r Llywodraeth ers amser maith i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd' ac y gallai hwn fod yn 'gyfle catalytig':

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig Codi Pwysau Cymru

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig Community Leisure UK (Cymru)

⁵⁵ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 180

⁵⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 109

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig Community Leisure UK (Cymru)

⁵⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 105

⁵⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 113

'...because if you bring those together, that is where we can have great power. And if the health service and the health sector turn around and say, 'Right, we want everybody to be active now, because of the benefits and because of the help with future pandemics and the spread of this disease and tackling this disease'—that could be a massive message that could hit home with a lot of people.'⁶⁰

Ein barn ni

Ar 23 Mawrth dywedwyd wrth bobl ledled y Deyrnas Unedig i aros gartref, heblaw am amgylchiadau cyfyngedig iawn gan gynnwys ymarfer corff.

Cydraddoldeb

Rydym yn croesawu'r pwyslais a roddir ar ymarfer corff gan lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig yn ystod y pandemig hwn. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod rhai grwpiau wedi mynd yn llai egnïol ers y cyfyngiadau symud ac y gallai'r arferion hyn ymsefydlu. Ni allwn dybio y bydd pobl yn dychwelyd i lefelau blaenorol o weithgarwch pan fydd cyfyngiadau yn cael eu lleddfu.

Rydym hefyd yn pryderu ei bod yn ymddangos bod y bwlch mewn anweithgarwch corfforol rhwng dosbarthiadau cymdeithasol yn ehangu, a bod y bwlch hefyd yn bresennol ymhlith plant. Mae'n hanfodol bod gwaith ymchwil pellach yn cael ei wneud yn y maes hwn i ddeall beth sy'n gyfrifol am y newidiadau mewn cyfranogiad, yn enwedig ymhlith plant, a dylai'r canfyddiadau gael eu hadlewyrchu yng nghynllun adfer a chymorth Llywodraeth Cymru i'r sector.

Iechyd y cyhoedd

Clywsom fod gwerthfawrogiad o'r newydd o fanteision bod yn egnïol yn gorfforol a bod cyfle i adeiladu Cymru iachach, fwy egnïol. Byddai gwneud hynny yn gwneud pobl yn fwy cydnerth yn wyneb heintiau ac yn lleddfu pwysau ar y GIG. Gan hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut mae'n parhau â'i hymdrechion i dynnu sylw at fanteision bod yn gorfforol egnïol a sicrhau bod digon o adnoddau ar waith i alluogi rhagor o bobl i fod yn fwy egnïol.

Cydweithredu

Clywsom hefyd y dylid gweld rhagor o gydweithredu rhwng y sectorau iechyd a chwaraeon. Credwn y gall Llywodraeth Cymru arwain y ffordd wrth nodi

⁶⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 188

strategaeth i wella iechyd corfforol Cymru. Rydym yn annog y sectorau iechyd a chwaraeon i weithio gyda'i gilydd i wneud y gorau o'r posibiladau.

Argymhelliad 3. Dylai cynllun adfer a chymorth ariannol Llywodraeth Cymru i'r sector fynd i'r afael â'r bwlch sy'n ehangu mewn anweithgarwch corfforol o fewn grwpiau demograffig a rhyngddynt.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru arwain sgysiau gyda chynrychiolwyr o'r sectorau iechyd a chwaraeon i bennu cyfeiriad polisi cydgysylltiedig hirdymor ar gyfer gweithgarwch corfforol ac iechyd y cyhoedd.

4. Dychweliad chwaraeon

35. Esboniodd Chwaraeon Cymru fod sawl grŵp wedi eu sefydlu ar draws y sector i roi sylw i ddychweliad chwaraeon, 'wedi eu rhannu, i bob pwrpas, yn chwaraeon dan do, chwaraeon awyr agored, cyfleusterau, a chyfranogwyr elitaidd a phroffesiynol'.⁶¹ O ran lefel y dychwelyd, clywodd y Pwyllgor fod chwaraeon 'yn mynd i fod yn wahanol i'r norm yn y tymor byr a dyna beth mae'r protocolau dychwelyd-i-chwarae hyn mae'r grwpiau'n rhoi sylw iddynt yn eu hystyried'.⁶² Yn ôl Chwaraeon Cymru, y neges gyffredinol gan randdeiliaid yw eu bod yn deall y negeseuon iechyd cyhoeddus ac nad ydynt yn dymuno effeithio'n negyddol ar y gwaith da sy'n cael ei wneud, 'ond mae angen iddyn nhw weld llwybr at ryw lefel o enillion'.⁶³

36. Ledled y Deyrnas Unedig, mae gwahanol setiau o reoliadau a chanllawiau ar waith ar ddychweliad chwaraeon yn raddol. Er enghraifft, ailagorodd cyrtiau tennis awyr agored yn Lloegr ar 11 Mai, ond fe wnaethant aros ynghau tan 22 Mehefin yng Nghymru. Cafodd y Pwyllgor nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y cyfyngiadau parhaus yng Nghymru a'r effaith a gafodd hyn ar chwaraeon ac unigolion. Ysgrifennodd un ymatebydd:

'I am writing to you as the father of an elite junior tennis player. My son, is currently the number 1 ranked player in the United Kingdom at Under 12 age group. Although he is working remotely with his fitness and tennis coaches, he is being severely disadvantaged in comparison to players in England, Scotland and the rest of Europe at the moment because of the current guidelines on playing tennis, and the availability of public tennis facilities.'⁶⁴

⁶¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 85

⁶² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 98

⁶³ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 98

⁶⁴ [Tystiolaeth ysgrifenedig gan unigolyn \(COV19\)](#)

37. Esboniodd EMD UK fod y gyfraith ar chwaraeon cyfranogol yn glir o ran y gwahaniaethau mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, ond nad yw'r cyhoedd bob amser yn deall y gwahaniaethau, gan nodi ei bod 'yn ofynnol parhau i atgyfnerthu'r negeseuon hynny a chael cymaint â phosibl o eglurder a meddwl yn gydgysylltiedig ymlaen llaw'.⁶⁵

38. Roedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru hefyd o blaid meddwl yn gydgysylltiedig, gan ddweud bod yr ymagwedd anghyson bresennol yn achosi 'rhai pryderon ynghylch pryd y gallwn ni aildddechrau chwaraeon - yr un pryd ledled y Deyrnas Unedig, gobeithio'.⁶⁶

39. Yn yr un modd, ysgrifennodd British Dressage Wales:

'Whilst I fully understand the need for the Welsh Government to move at its own speed on this issue, as part of a UK wide organisation, the disparity of conditions and restrictions, makes it very difficult to coordinate activities and competitions across the UK for British Dressage, and it would be very helpful to have some alignment between Wales and the rest of the UK in this areas of concern.'⁶⁷

40. Dywedodd Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod y dychweliad graddol yn achos chwaraeon elitaidd yn faes lle gellid gwella'r ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig:

'...when it comes to elite sports, DCMS at the UK Government level, they've asked UK Sport to lead on preparing some protocols for a phased return for elite sport. So, they've produced a draft report, which effectively sets out four phases, with the end point being a return to full participation, the first phase being training. Just in terms of the engagement on that, though, there is good engagement with Sport Wales and UK Sport. We would like to see better engagement with DCMS before they issue these requests to UK Sport, so we can input at a higher level.'⁶⁸

41. O ran dychwelyd at sefyllfa lle gall gwylwyr fod yn bresennol mewn digwyddiadau chwaraeon, galwodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru am ddiffiniad o 'durf fawr', gan egluro y gellid ac y dylid caniatáu 500 o bobl mewn stadiwm capasiti 2,500 sedd gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol.⁶⁹ Hoffai Cymdeithas

⁶⁵ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 201

⁶⁶ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 208

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig British Dressage Wales

⁶⁸ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 12 Mai, Paragraff 117

⁶⁹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 229

Bêl-droed Cymru weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw 'ymagwedd un ateb i bawb' at gynullïadau mawr yn cael ei mabwysïadu.⁷⁰

42. O ran gweithio gyda Llywodraeth Cymru, cyfeiriodd Undeb Rygbi Cymru at bwysigrwydd sicrhau bod Stadiwm Principality yn parhau i fod yn 'seren ddisglair' o ran denu digwyddiadau mawr, gan dynnu sylw at ei fuddion economaidd fel 'atyniad mawr yng Nghymru'.⁷¹ Esboniodd:

*the concern, of course, moving forward, is once we've lost events this year, will we be successful in ensuring that they come back, and indeed that we're successful in ensuring other events come as well?*⁷²

43. Yn ogystal, galwodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar Lywodraeth Cymru i 'hwrwyddo'r ffaith bod chwaraeon yn ddiogel ac yn hygyrch pan fo hynny'n bosibl'. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mynegodd bryder ei bod yn bosibl na fyddai pobl eisïau dychwelyd i gampfeydd a dosbarthiadau ymarfer corff:

*'When we return to normality, it may be that people are less likely to re-join gyms and exercise in classes and group settings for some time, they may have become over dependent on online fitness workouts, and may feel safer undertaking these in their own homes.'*⁷³

44. Yn yr un modd, nododd Cymdeithas Bêl-droed Cymru bod 'angen ymddiriedaeth, yn enwedig pan rydych chi'n sôn am chwaraeon tîm a chwaraeon cyswllt, ac mae'n rhaid i ni ddatblygu'r ymddiriedaeth honno, yn amlwg'.⁷⁴

45. Dywedodd Community Leisure UK (Cymru) hefyd fod rôl i Lywodraeth Cymru gynorthwyo gweithredwyr hamdden a chwaraeon cyhoeddus 'wrth fynd i'r afael â chanfyddiad y cyhoedd o ddiogelwch a rheoli disgwyliadau o ran sut bydd gwasanaethau a chyfleusterau yn wahanol wrth ailagor':

*'This will influence how quickly customers will return, which in turn will impact business viability and recovery. It is suggested therefore that Welsh Government develops a national campaign to build public confidence and raise realistic expectations about engaging with newly reopened businesses and public spaces.'*⁷⁵

Ein barn ni

⁷⁰ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 229

⁷¹ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 185

⁷² Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 162

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

⁷⁴ Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 11 Mehefin, Paragraff 187

⁷⁵ Community Leisure UK (Cymru)

Clywodd y Pwyllgor fod nifer o grwpiau wedi eu sefydlu i edrych ar ddychweliad chwaraeon ond y bydd cryn amser eto cyn i weithgareddau chwaraeon ddychwelyd i lefelau cyn-bandemig.

Gwahaniaethau ledled y Deyrnas Unedig

Clywsom sut mae'r gwahanol ymagweddau at leddfu'r cyfyngiadau symud ledled y Deyrnas Unedig yn effeithio ar chwaraeon ac unigolion. O ran chwaraeon elitaidd, rydym yn cytuno â'r alwad gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru y dylid ailddechrau chwaraeon ar yr un pryd ledled y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli mewn unrhyw drafodaeth a gyfarwyddir gan Adran Digidol, Diwylliant a Chyfryngau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddychweliad chwaraeon proffesiynol i sicrhau bod cymaint â phosibl o aliniad.

Canllawiau ar gynulliadau torfol

Gellir cynnal digwyddiadau chwaraeon y tu ôl i ddrysau caeedig erbyn hyn, gyda gwylwyr yn annhebygol o gael mynediad am amser hir i ddod. Fodd bynnag, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau ar gyfer ailgychwyn chwaraeon i wylwyr cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi sefydliadau chwaraeon i baratoi a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith. Mae clybiau yng Nghymru yn aml yn ddibynnol iawn ar incwm a geir ar ddiwrnod gêm, a heb sicrwydd ynghylch y mater hwn maent yn debygol o wynebu heriau ariannol sylweddol. Rydym hefyd yn cytuno â'r alwad gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru ar i Lywodraeth Cymru ddiffinio 'torf fawr', ac y dylid osgoi defnyddio model un ateb i bawb wrth ystyried y gwahanol feintiau a mathau o leoliadau chwaraeon.

Arweinyddiaeth

Mae Stadiwm Principality yn cynnal nifer o ddigwyddiadau mawr bob blwyddyn. Mae'n hanfodol bod Cymru yn parhau i ddenu'r digwyddiadau hyn, sy'n helpu i gynnal y sectorau lletygarwch a thwristiaeth. Wrth i ni ddod allan o'r pandemig hwn, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Caerdydd fel cyrchfan ragorol ar gyfer digwyddiadau mawr.

Clywsom hefyd y dylai Llywodraeth Cymru, pan fydd hi'n bosibl gwneud hynny, hyrwyddo'r ffaith bod chwaraeon yn ddiogel ac yn hygyrch unwaith eto. Wrth i gyfyngiadau leddfu, gall pobl deimlo'n nerfus ynghylch dychwelyd i'r gampfa neu chwarae chwaraeon cyswllt. Er mwyn i ni ddod allan o'r pandemig hwn gyda phwyslais ar fod yn egniol, ac i gic-danio'r economi yn y modd y mae

cyfleusterau chwaraeon ei angen, mae gofyn i ni ennyn hyder y cyhoedd ac annog pobl i ddychwelyd i'w clybiau a'u campfeydd.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion i'r Pwyllgor am ei hymgysylltiad â Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn perthynas ag ymagwedd gydgysylltiedig at ddychweliad chwaraeon.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar gynulladau torfol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, sy'n cydnabod anaddasrwydd ymagwedd un ateb i bawb. Dylid datblygu'r canllaw hwn mewn cydweithrediad â chyrrff llywodraethu chwaraeon a darparwyr cyfleusterau cyn gynted â phosibl.

Atodiad A – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan.

Cafodd yr ymatebion a ganlyn eu cyflwyno naill ai gan sefydliad neu unigolyn mewn rhinwedd broffesiynol. Cafwyd yr holl ymatebion eraill gan unigolion mewn rhinwedd bersonol, felly tynnwyd eu henwau yn unol â'n polisi prefairwydd.

Cyfeirnod	Sefydliad
COV05	Weightlifting Wales
COV26	British Dressage Wales
COV29	Nofio Cymru
COV30	Chwaraeon Cymru
COV34	Mackintosh LTC
COV47	Community Leisure UK (Cymru)
COV50	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy